

# Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd am 7.00 o'r gloch, nos Fawrth , **9 Hydref 2018** yn Siambr y Cyngor, Stryd Fawr, Criccieth.

---

## Gweddi agoriadol

### **1-10/18: Presennol**

Cadeirydd : Cyng. Elizabeth George

Cyng. Robert Cadwalader; Cyng. Phil Jones; Cyng. Dr E Tudor Jones; Cyng. Dafydd Lloyd; Cyng. Eirwyn Williams; Cyng. Dr Ian Rees

Clerc – Dr Catrin Jones.

Presenoldeb gan nifer o unigolion ar gyfer eitem Cynllunio 7-10-18 (b) – cymerwyd yr eitem yma yn gyntaf ar yr agenda.

Croesawyd y Cyng. Dr Ian Rees i'w gyfarfod cyntaf - nodwyd ei fod wedi llenwi'r ffurflen derbyn swydd ym mhresenoldeb y Clerc a hefyd ffurflen diddordebau.

### **2-10/18 Ymddiheuriadau:**

Cyng. Wayne Roberts; Cyng. William A Evans; Cyng Henry Jones; Cyng. Robert T Price;

### **3-10/18: Datgan diddordeb**

Cyng Robert Cadwalader ar gyfer eitem 7-10/18 Ceisiadau Cynllunio b. C18/0698/35/LL - Cais i estynni'r adeilad cartref nyrsio a maes parcio - Cartref Preswyl Y Pines, Rhesdai Mona, Criccieth, LL52 ODE-

### **4-10/18 Cadarnhau cofnodion mis Medi2018**

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

### **5-10/18 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)**

*Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau*

- a. Cyngor Gwynedd – nodi bod gohebiaeth wedi ei dderbyn yn gwahodd sylwadau ar ganllaw cynllunio atodol: Tai Marchnad Lleol a Llycynnua agored mewn datgylgiadau Tai Newydd. Mae posib archwilio'r CCA ar wefan y Cyngor <http://www.gwynedd.llyw.cymru/cca> a chopiau caled ar gel yn Siop Gwynedd, Sywddfa'r Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd, Prif Swyddfa'r Cyngor yn Llangefni a llyfrgelloedd cyhoeddus y ddwy Sir.

### **6-10/18: Gohebiaeth**

- a. Cyngor Gwynedd – Ymarferiad ymgysylltu cyhoeddus 'Pa wasanaethau sy'n bwysig i chi?' – Medi 2018

Roedd holiadur 59 cwestiwn gyda gwahoddiad i'r Cyngor yrru ymateb.

Byddai yr ymatebion yn ddibynnol ar sefyllfaoedd a blaenoriaethau unigolion, felly amhosib i'r Cyngor ymateb fel corff i holiadur o'r fath. Rhaid i Gyngor Gwynedd ddarparu gwasanaethau statudol, ac mae ganddynt gynllun strategol a hefyd ymrwymiad i Gynllun Llesiant Gwynedd a Môn –Roedd hysbyseb wedi cael ei rhoi am yr ymgynghoriad ar hysbysfwrdd - yn anffodus y manylion wedi cyrraedd rhy hwyr i fynychu'r cyfarfod cyhoeddus yn Ysgol Eifionydd ar 25 Medi. Roedd copïau papur o'r holiadur ar gael o Siopau Gwynedd, llyfrgelloedd a chanolfannau hamdden y Cyngor.

**Penderfyniad:**

Roedd yn anymarferol i'r Cyngor ymateb i hwn fel corff –ac mi ddylai Cynghorwyr ymateb yn unigol yn ôl ei dymuniad, naill ai ar lein neu ar gopi caled.

- b. Gwasanaeth Bysiau – adroddiad o gyfarfod ym Mhorthmadog 26 Medi 2018

Cafwyd adroddiad ar lafar gan y Cyng Robert Cadwalader a oedd wedi mynychu'r cyfarfod – nodwyd bod amserlen newydd bysiau yn cael ei gyhoeddi o fis Ionawr 2019. Nodwyd ei bod yn anodd cael gwasanaethau bysiau i dalu ffordd mewn lleoliadau gwledig ac roedd hyn yn rhwystr i gael cwmnïau i gynnig gwasanaethau.

**7-10/18: Ceisiadau Cynllunio**

- a. C18/0805/35/LL – Creu agoriadau newydd i gynnwys ffenestri o fewn talcen a tho eiddo preswyl: 7 Stryd y Castell, Criccieth, LL52 ODP

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad

- b. C18/0698/35/LL - Cais i estynni'r adeilad cartref nyrsio a maes parcio - Cartref Preswyl Y Pines, Rhesdai Mona, Criccieth, LL52 ODE-

Nodwyd bod gwrthwynebiad cryf yn yn lleol i'r cais hwn – ac roedd llythyron wedi eu derbyn gan y Cadeirydd a'r Clerc. Bu nifer o unigolion yn bresennol yn y cyfarfod i fynegu eu gwrthwynebiad.

**Penderfyniad:** Gwrthwynebu'r cais oherwydd gor-ddatblygiad o'r safle ac na fyddai chyfleusterau y Ganolfan Iechyd Leol yn medru ymdopi.

**8-10/18 Archwiliad o Gyfrifon y Cyngor Tref 2017-18**

Nodiwyd nad oedd yr Archwilwyr Allanol wedi cwblhau'r broses a dyfarnu canlyniad erbyn 30 Medi, a bod y Clerc wedi postio'r rhybudd am hyn a chopi o'r ffurflen ar hysbysfwrdd y Cyngor ar y dyddiad hwnnw - bydd y rhybudd yna am 14 diwrnod.

**Penderfyniad:**

Derbyn y wybodaeth

**9-10/18 Prosiect Cofio Cyfraniad Criccieth - diweddariad**

Derbyn adroddiad o gyfarfod 26 Medi 2018 – a oedd wedi ei gylchredeg.

Nodwyd y gweithgareddau ar gyfer wythnos 4-11 Tachwedd i gynnwys arddangosfa yn y Neuadd Goffa, a digwyddiadau Sul y Cofio gan gynnwys adloniant yn y prynhawn a the, a goleuo'r Ffagl goleuni gyda'r hwyr.

Roedd y Clerc yn trefnu llythyron gwahoddiad a'r pamffledi wedi eu printio. Bydd datganiadau i'r Wasg. Roedd llyfryn yn cael ei baratoi i gonfodi'r holl weithgaredd ac allbynnau hynod o gyffrous. Byddai'n wythnos i'w chofio.

**Penderfyniad:** Diolch yn fawr iawn i'r Grŵp Llywio am ei gwaith.

### **10-10/18 Is-bwyllgor Cynllunio a Thrafnidiaeth – cofnodion cyfarfod 13 Medi 2018**

Nodwyd y gwaith paratoi ar gyfer seremoni Ffagl Goleuni ar 11/11,. Roedd y Cwmni Yswiriant wedi cadarnhau bod popeth yn iawn yn dilyn cyflwyno'r asesiad risg a'r Heddlu a Gwasanaeth Tân yn fodlon gyda'r trefniadau. Roedd cais wedi ei wnedd am y drwydded i Gyngor Gwynedd ac asesiad risg a datganiad method wedi ei gyflwyno. Roedd y Clerc- wedi derbyn e-bost i gadarnhau bod y Cyngor am rhoi'r drwydded. Roedd yn bwysig iawn bod y Cyngorwyr sydd yng ngofal y noson y cadw at yr holl gamau. Nodwyd y bydd trefniadau ganddynt i gwrdd i fynd trwy bob dim ar ddydd Sadwrn 10fed Tachwedd – amser i'w gadarnhau rhyngddynt.

Nodwyd bod Phil Jones wedi derbyn y Ffagl Goleuni.

**Penderfyniad:** Derbyn y wybodaeth – bydd angen i'r Cyngorwyr gadarnhau gyda'r Clerc y trefniadau ar gyfer cwrdd ar 10fed Tachwedd.

### **11-10/18: Cynllun Cymunedol Criccieth - diweddariad**

Nodwyd bod y trydydd gweithdy wedi cael ei gynnal ar nos Fercher 19 Medi – ac roedd y nodiadau wedi eu cylchredeg. –

Roedd y nodiadau yn cynnwys beth sydd angen bod mewn lle er mwyn sicrhau llwyddiant i'r Cynllun Cymunedol:

- Cynllun clir a realistig.
- Lleoliad addas a chyfleus i gwrdd – efallai'n symud o amgylch y dref.
- Cyllid
- Amserlen
- Digon o wirfoddolwyr / plenty of volunteers
- Cysylltu sgiliau a chefnidir unigolion efo'r is- grŵp perthnasol
- Cyfathrebu allanol er mwyn annog eraill i helpu
- Cyfathrebu da rhwng y Cyngor a'r grwpiau
- Cyfarfodydd rheolaidd efo cynrychiolydd o'r Cyngor Tref
- Cyfathrebu efo grwpiau sy'n weithgar eisoes/

Strwythur arfaethedig:

- Is-grwpiau i weithredu a gwireddu rhannau o'r cynllun cymunedol
- Un person sef y cydlynnydd/cadeirydd bob is-grŵp i ffurfio grŵp ymbarel/llywio.
- Y grŵp llywio i osod yr amserlen a'r rhaglen waith.
- Bydd prysurdeb a gweithgarwch bob is-grŵp yn dibynnu ar y blaenorethau ar yr adeg.
- Y grŵp llywio i gyfathrebu efo'r Cyngor Tref trwy un person a fydd yn aelod y grŵp llywio.

- Y grŵp llywio i benodi ysgrifennydd/es.
- Grŵp llywio i ystyried ffurfio'n Grŵp Cymunedol efo cyfri a chyfansoddiad er mwyn denu arian a grantiau rhywbryd yn y dyfodol.

#### Is-Grwpiau

Yr amgylchedd/The environment

Cyfleusterau dinesig a thwtrwydd/Civic amenities & tidiness

Pobl ifanc / Young People

Yr economi/The economy

Diwylliant a chymdeithasu / Culture and socialising

Parcio a rheolaeth traffig/ Parking and traffic control

Ni wirfoddolodd neb i fod yn gydlynnydd a nid oedd y grŵp yn credu dymuno parhau gan mater i Gyngor Gwynedd yw parcio a rheolaeth traffig.

Ysgrifennydd (a chymorthydd) y grŵp llywio a'r is-grwpiau i gyfathrebu am beth maent yn ei wneud drwy wahanol gyfryngau

Adrodd i gyfarfod y **Cyngor Tref 11 Rhag** pa gamau mae'r grwpiau wedi'u cymryd.

#### **Penderfyniad:**

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd y dylid ail-edrych ar gyfansoddiad Is-Grwp Llywio Cynllun Cymunedol yn y cyfarfod nesaf ac i drefnu cyfarfod gyda'r unigolion sydd wedi bodloni arwain y pump Is-Grwp yn hwyrach ym mis Tachwedd ar ddyddiad i'w gytuno. Byddai modd trafod y cyfansoddiad/cylch gorchwyl wedyn yn yr Is-Grwp i sicrhau ei fod yn ffit i bwrpas.

#### **12-10/18: Is-bwyllgor Cyllid Polisi a Rheolaethol – cofnodion cyfarfod 18 Medi 2018**

Roedd cofnodion yr Is-bwyllgor wedi ei gylchredeg.

**Penderfyniad:** Cymeradwyo'r cofnodion. Nodi bod cyfarfod nesaf i'w gynnal ar nos Fercher 28 Tachwedd i ystyried cyllideb ar gyfer 2019-20

Cytuno gyda chofnod 10-09/18 a oedd yn cynnig bod y Cyngor yn rhoi cynlluniau ar y gweill i weithredu'n ddwyieithog yn y dyfodol.

#### **13-10/18 Diweddariad Cyllid 2018-19**

Nodwyd bod yr Is-bwyllgor Cyllid Polisi a Rheolaethol wedi derbyn taenlen ac adroddiad ar y sefyllfa ariannol i fyny at ddiwedd Awst 2018 – diweddariad ar y sefyllfa fyny at ddiwedd Medi 2018 wedi ei gylchredeg i holl aelodau'r Cyngor er gwybodaeth.

Nodwyd bod £17,438.86 wedi'i wario o'r gyllideb arferol fyny at ddiwedd Awst (£336.22 TAW hyd yma). Byddai modd cael ad-daliad o'r TAW. Roedd ail hanner y praesept wedi cael ei dalu gan Gyngor Gwynedd ym Mis Awst (£18k) - Roedd £6,327.04 o'r £9885.00 wedi ei wario o'r grant Cronfa Cofio Cyfraniad Criccieth (£290.19 TAW hyd yma). (£115 wedi ei wario ar y prosiect £10,000 yn 2017/18) Nodwyd y ffigwr o £76,198.44 yn y cyfrif "Community Account" a £30,418.09 yn y cyfrif cefn 'Money Manager'.

**Penderfyniad:** Derbyn y wybodaeth

#### **14-10/18: Lwfans Cyngorwyr 2018-19**

Yn unol ag adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol aelodau Cyngorau Cymuned a Thref mae'r Cyngor wedi sicrhau bod taliad o £150 y flwyddyn ar gael i bob un o aelodau'r Cyngor am gostau a ysgwyddir mewn perthynas â defnyddio'r ffôn, technoleg gwybodaeth, defnyddiau traul ac yn y blaen; y cyngor yw bod yn rhaid i unrhyw daliad a wneir mynd drwy'r system daliadau HMRC gan ei fod yn drethadwy. Rhaid i bob cyngorydd gwblhau ffurflen sydd wedi cael ei gylchredeg i bawb - - gall Cyngorwyr hepgor hawlio'r taliad yma yn gyfan gwbl, hawlio rhan ohono neu hawlio'r £150. Nodwyd bod adroddiad drafft y Panel eleni wedi ei gyhoeddi ac y bydd ar agenda'r Cyngor Tref ym mis Tachwedd.

**Penderfyniad:** Cytuno i bob cyngorydd gwblhau'r ffurflen ar gyfer y cyfarfod nesaf.

#### **15-10-18 Rheolau Sefydlog a Rheolau Ariannol y Cyngor Tref - ystyriaeth o newidiadau a mabwysiadu rheolau diwygiedig yn sgîl Model Reoliadau Sefydlog NALC 2018.**

Roedd yr Is-bwyllgor Cyllid Polisi a Rheolaethol wedi ystyried Model Reolau Sefydlog NALC ac yn argymhell i'r Cyngor ei derbyn gydag ychwanegiad iddynt o'r cymalau sydd yn Rheoliadau Sefydlog cyfredol y Cyngor Tref. Hefyd i gymeradwyo'r newidiadau i'r Rheolau Ariannol, gan gynnwys argymhelliad bod contractau yr amcangyfrifwyd eu bod yn werth llai na £10,000 neu oherwydd amgylchiadau arbennig yn cael eu heithrio o broses dendro neu ymarferiad caffael. Roedd y Rheolau Sefydlog newydd a'r Rheolau Ariannol diwygiedig wedi eu cylchredeg.

**Penderfyniad:** Cymeradwyo'r Rheolau Sefydlog a Rheolau Ariannol.

#### **16-10-18 Goleuadau Nadolig 2018**

Y Clerc wedi holi am amcangyfrif pris ar gyfer gosod a goleuo'r Goleuadau Nadolig 2018 : £1600+ TAW; cost ychwanegol i fynychu'r seremoni goleuo; ffi o £135 galw allan mewn argyfwng =£50 yr awr wedyn (os bydd angen hyn); a £300 + TAW i'w tynnu lawr.

Beth yw'r farn am Goeden Nadolig? Roedd y Cyngor wedi penderfynu peidio â chael coeden y llynedd - (prynu coeden, ei gosod a goleuo a thynnu lawr tua £1000)  
Croeso Dolig eleni ar 29 Tachwedd.

**Penderfyniad:**

#### **17-10-18 Dyfodol Adeilad Cyngor Tref Criccieth a'r Llyfrgell**

Dal dim ymateb o Gyngor Gwynedd

**Penderfyniad:** Nad oedd y sefyllfa yma yn dderbyniol. Cytunwyd i'r Cyng. Eirwyn Williams gysylltu gyda swyddog stadau Cyngor Gwynedd ac y dylai'r Cyng. Elizabeth George holi beth am amcangyfrif cost cael barn bargyfreithiwr ar y mater.

#### **18-10/18: Torri gwair yn y dref**

Trafodwyd a oedd y Cyngor am barhau gyda'r trefniant i wario ar dorri gwair ychwanegol yn 2019/20 gan y byddai hyn yn helpu gyda gosod y gyllideb .

**Penderfyniad:** I barhau gyda chyfrannu i gostau torri gwair yn y dref - roedd torri gwair a thaclusrwydd yn fater o bwys i drigolion y dref ac wedi ei nodi yn y sesiynau ymgysylltu gyda'r gymuned yn y gweithdai yn ystod y flwyddyn. Roedd cwestiwn wedi codi am bwy oedd yn gyfrifol am dorri gwair yn ardaloedd Ty'n Rhos a'r boncen ar Fferm Penybryn. Cytunwyd y dylid ysgrifennu at Gartrefi Cymunedol Gwynedd.

### **19-10/18: Parcio yng Nghriccieth**

Dim byd i'w adrodd

### **20-10/18 Torri coed yng Nghriccieth**

Dim byd i'w adrodd

### **21-10/18 Meinciau Tref Criccieth**

Dim bydd i'w adrodd.

### **22 -10/18 Bocsiau Blodau ger y Pines**

Nodwyd bod y gwaith i ail gyflunio a gosod 4 bocs newydd llai mewn pren accoya a hefyd trwsio unrhyw slabiau sydd wedi torri yn cymryd lle Mis Hydref. Nodwyd yn ogystal bod yr Adran Gynllunio yn hapus hefyd gan fod y safle o fewn Ardal Gadwraeth. Gobeithio y bydd popeth yn ei le ac yn barod i'w plannu erbyn hanner tymor. Bydd Criccieth yn ei Blodau yn gwneud y plannu.

**Penderfyniad:** Derbyn y wybodaeth.

### **23-10-18 Llwybrau Cyhoeddus**

Ar hyn o bryd roedd y Cyngor Tref yn trefnu toriadau ar gyfer llwybrau cyhoeddus - a Chyngor Gwynedd yn 2018/19 yn ad-dalu £325 o'r costau ar gyfer llwybrau Categori 1 a 2. Nid oedd gwybodaeth eto a fyddai'r cynllun ad-daliad yn dal i weithredu ar gyfer 2019/20 - roedd y Clerc wedi holi swyddog Cyngor Gwynedd am hyn. Mae'n gyfrifoldeb statudol ar Gyngor Gwynedd i gynnal y llwybrau cyhoeddus - felly does dim rhaid i'r Cyngor Tref barhau gyda'r bartneriaeth yma.

**Penderfyniad:** Trafod yn y cyfarfod nesaf.

### **24-10-18 : Derbyniadau - dim**

### **25-10/18: Taliadau**

• Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol(PAYE)	£72.70(siec 101270)
• Cyflog y Clerc (Medi)	£660.18(siec 101271)
• Gwasanaeth Cyfieithu Ann Llwyd Translation Service	£133.20 (siec 101272)
• Gwasg Cymru	£164.80 (siec 101273)*
• Costau teithio ac ati Y Clerc Cofio Cyfraniad Criccieth	£126.22 (siec 101274)*

\*Biliau ychwanegol ers cyhoeddi'r agenda

**Penderfyniad:** Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc i dalu'r biliau.

---

Daeth y cyfarfod i ben am 8.30 y.h.

Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar **nos Fawrth 13 Tachwedd 2018**.

**\*\*Bydd y rhaglen yma yn cau 5 Tachwedd 2018\*\***